BBC SCREENPLAY FORMAT

by

(Name of First Writer)

(Based on, If Any)

There should be one
contact address only
in the bottom left
hand corner.
Always include a phone
number and an e-mail
address if you have one.

5 **ALLAN. YSYBTY. DYDD** 5

TRACEY/DIONE

TRACEY a DIONE yn cerdded allan o'r ysbyty, ac yn cerdded tuag at yr arhosfa bws.

TRACEY
Gawn ni take away heno os ti isio?

DIONE
(dryly)
Efo be? Ti'n sgint.

TRACEY yn gwbod bod hyn yn wir.

DIONE (CONT'D)
Ti'n gwario dy bres ar ddrygs dyddia yma aparyntli.

TRACEY
Nacdw...

DIONE
(angry)
Be o'dd yn y choclet na ta?

TRACEY
Justin piso cath ddoth a fo draw. Do'dd o'm byd i neud efo fi. A eniwe, ti'n iawn, 'na'r oll sy'n bwysig wan.

DIONE yn yn troi i edrych arni.

DIONE
Be am social services?

TRACEY yn annwybyddu'r cwestiwn ac yn cario 'mlaen i gerdded.

DIONE (CONT'D)
Neshi glywad be udodd y doctor. Bo nhw am neud visit achos be ddigwyddodd.

TRACEY yn stopio, ac yn troi i edrych arni.

TRACEY
Jysd rwtin di hynna siwr. Tyd, neu fyddwn ni di colli bys.

DIONE yn edrych arni - ddim yn credu gair. Ma' hi'n cerdded yn ei blaen yn flin. Gorffen ar TRACEY - ydi hi'n credu ei geiriau ei hun?